

20/05/2022

Annwyl Rieni,

Ar ddiwedd hanner tymor prysur arall, mae'n bleser gennyf rannu'r wybodaeth a'r newyddion canlynol:

Adroddiad Estyn

Mae'n bleser gennyf ddanfon copi o flaen dudalen ein adroddiad Estyn yn dilyn eu hymweliad ym mis Chwefror. Fel y gwelwch mae'r ganmoliaeth yn uchel i nifer fawr o agweddau holl bwysig o waith yr Ysgol gan gynnwys ein ffocws ar anghenion emosiynol a lles ein disgyblion. Mae'r frawddeg agoriadol yn crisialu ein gofal a'n gweledigaeth fel cymuned lle mae pawb yn gallu tyfu a ffynnu yn llwyddiannus ac rydym yn ymfalchio yn y gydnabyddiaeth a gawsom am ein gwaith yn ystod y pandemig. Yn ychwanegol, mae cryfderau ein disgyblion yn gymdeithasol ac yn academaidd yn cael ei bwysleisio a'i glodfori drwyddi draw, a'r berthynas cadarnhaol rhyngddynt a'r athrawon yn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf.

Wrth gwrs, fel ym mhob cyfnod o arfarnu, mae gennym dargedau a'r rheini yn rhai allweddol bwysig er mwyn i ni sicrhau ein bod yn cyrraedd ein llawn potensial fel ysgol rhagorol. Mwynhewch y crynodeb ac os hoffech ddarllen yr adroddiad llawn yna mae copi ar gael ar wefan yr ysgol.

Profion Statudol Llythrennedd a Rhifedd

Yn syth ar ôl hanner tymor bydd blynyddoedd 2 – 9 yn cwblhau profion statudol mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg. Bydd y canlyniadau yn cael eu rhannu gyda chi trwy HWB ac ar adroddiad diwedd blwyddyn eich plentyn. Nid oes angen pryderi am rhain, nid oes angen adolygu ond bydd angen sicrhau bod eich plentyn yn gwneud ei g/orau glas wrth gwblhau er mwyn dangos eu gwir potensial.

Bwyty'r Giedd a Chaffi'r Graig

Yn dilyn ymweliad gan Iechyd Amgylcheddol rydym yn falch iawn i gyhoeddi bod Bwyty'r Giedd a Chaffi'r Graig wedi derbyn safon 5*, y safon uchaf posib ac rydym yn llongyfarch Mrs Vicky Warren a'i thîm arbennig o gogyddion am eu gwaith. Mae ein ffocws ar fwyta'n iach yn dwyn ffrwyth, mae niferoedd sydd yn bwyta prydiau bwyd maethlon amser cinio yn cynyddu ac os hoffech weld yr hyn sydd ar gael mae ein bwydlen ar wefan yr Ysgol. Mae pryd twym canol dydd yn costio £2.50 a'r taliadau trwy Parent Pay.

WAS – Gwobr Iechyd Cenedlaethol

Fel y gwyddoch, rydym yn anelu at gael ein achredu gyda'r 'Wellbeing Award for Schools' (WAS) ac yn dilyn ein hadroddiad rhagorol gan Estyn am ein gwaith Lles a'r gefnogaeth i ddisgyblion rydym yn hyderus y byddwn yn llwyddiannus. Un o'r camau olaf yw ail-ymweld â'r holiadur a lenwyd gennych nôl yn yr Hydref. Os allech chi gwblhau'r holiadur yma cyn dydd Gwener 20fed Mai baswn yn dra diolchgar. [Cliciwch](#) yma!

Wythnos Iechyd a Lles

Yn ystod yr wythnos yn cychwyn 20fed Mehefin, byddwn yn cynnal wythnos Iechyd a Lles. Bydd yr wythnos yn cael ei lawnsio gan Robert Mitchell, athletwr proffesiynol o Gymru a fydd yn ffocysu ar y thema 'Ysbrydoli Plant Heddiw i fod yn Bencampwyr yfory'. Trwy weithgareddau chwaraeon byddwn yn codi arian trwy system crowd funding er mwyn gallu prynu adnoddau ar gyfer ein buarth newydd. Dyma'r cyswllt ar gyfer noddi: <https://www.crowdfunder.co.uk/p/ysgolgyfunystalyfera>

Llongyfarchiadau a Llwyddiannau

Mae'r hanner tymor hwn wedi bod yn un llwyddiannus iawn i nifer fawr o'n disgyblion a hoffwn eu llongyfarch nhw i gyd am eu gwaith. Dyma rhai llwyddiannau nodedig:

Yr Adran Fathemateg (UK Maths Challenge)

Sialens yr Adran Iau (BL 8)

Skye	Corry	Arian
Coby	Devereux	Arian
Dewi	Jones	Arian
Mari	Morgan Jones	Arian

Sialens yr Adran Ganol (BL10/11)

Elis	John	Aur
Llian	Caines	Aur
Bethan	Bray	Arian
Ellen Fiona	Smith	Arian
Morgan	Davies Woodrow	Arian
Gwen	Morgan Jones	Arian
Ioan	Carter Jones	Arian

Adran Fusnes

Diolch i Gower Cottage Brownies am eu cefnogaeth i brosiect 'Her Prentis Ysgol Gymraeg Ystalyfera 2022'. Gofynnwyd i ddisgyblion greu 'Brownie' newydd ar gyfer y farchnad.

Pencampwyr yr Her: Zac Bevan, Callum Garrett, Danny Hirst a Jac Smith

Syniad mwyaf Mentrus a Chreadigol: Kimberley Llywellyn a Thomas Griffiths

Cyflwyniad mwyaf proffesiynol; Briallen Weaver, Ella Bissicks Arwen Watts

Disgybl dygn: Jazmine Roberts



Chwaraeon

Iola Jones (blwyddyn 6) tim pel droed merched Abertawe.

Jayden James a Steffan Austin (blwyddyn 6) tîm pêl droed Afan Nedd.

Tim rygbi blwyddyn 6 ail yn nhwrnamaint yr Urdd - Gorllewin Morgannwg.

Tîm rygbi XV cyntaf yr Ysgol - Pencampwyr Cwpan Ysgolion Cymru.

Gwennan Horgan carfan pel droed dan 17 Cymru

Morgan Morse tîm rygbi dan-20 a dan 18 Cymru

Rhodri Lewis tîm rygbi dan-18 Cymru.

Tim 7 bob ochr 1af yr Ysgol hefyd wedi ennill twrnament Llanymddyfri, a dod yn ail yn un yr Urdd

Tim pelfasged y 6ed wedi dod yn ail mewn twrnament rhanbarthol Gorllewin Cymru

Maggi Richards blwyddyn 8 tîm hoci De Cymru o dan 13

Canolfan Gwenallt

William Rawlings Ysgoloriaeth Nuffield i weithio dros yr haf ar brosiect wyddonol.

Taryn Purchase Ysgol Haf Rhydychen.

Noson Dathlu Doniau / Drws Agored

Byddwn yn cynnal noson drws agored ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn rhoi cyfle i chi ymweld â ni wyneb yn wyneb. Bydd y noson yn gyfle i chi weld yr adeiladau newydd, cael blas o'r math o waith sydd wedi cael ei gwblhau gan ein disgyblion, mynychu perfformiad 'Dathlu Doniau', gweld y caeau chwarae bendigedig a chael cyfle i sgwrsio â ni am eich pryderon. Edrychwn ymlaen at gael eich croesawu **nos Fercher 13 Gorffennaf 2022**.

Yn olaf hoffwn dynnu eich sylw at galendr ein hanner tymor olaf sydd yn llawn gweithgareddau yn ffocysu ar uwchsgilio a darparu profiadau eang a chyfoethog i'n disgyblion. Nodwch os gwelwch yn dda ein diwrnodau HMS, nosweithiau rieni (bl8), gwibdeithiau a'r Noson Wobrwyo. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â'r brif swyddfa.

Diolch eto am eich cefnogaeth a'ch cyd-weithrediad

Yn gywir

Pennaeth



Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Calendr y Tymor

- 6.6.22: Profion Rhifedd a Llythrennedd Blynnyddoedd 2-9 (dros bythefnos)
- 9.6.22: Noson rieni Blwyddyn 8
- 13.6.22: Wythnos profiad gwaith Blwyddyn 12
- 14.6.22: Adroddiadau llawn Blwyddyn 9
- 20.6.22: Wythnos Arholiadau Blwyddyn 10 / Wythnos Iechyd a Lles / Wythnos Arweinyddiaeth
Blwyddyn 12
- 24.6.22: Pythefnos Dysgu Carlam
- 1.7.22: HMS (dim ysgol i ddisgyblion)
- 11.7.22: HMS (dim Ysgol i ddisgyblion)
- 13.7.22: Noson Dathlu Doniau / Noson Drws Agored
- 14.7.22: Gwibdeithiau
- 15.7.22: GIG Siarter Iaith
- 19.7.22: Noson Wobrwyo
- 20.7.22: Adroddiadau 7,8,10
- 21.7.22: Diwedd Tymor
- 22.7.22: HMS (dim ysgol i ddisgyblion)



20/05/2022

Dear Parents,

At the end of another busy half term, I am pleased to share the following information and news:

Estyn Report

I am delighted to send a copy of the front page of our Estyn report following their visit in February. As you will see the Inspectors gave high praise for a large number of vital aspects of the School's work including our focus on the emotional needs and wellbeing of our pupils. The opening sentence encapsulates our care and vision as a community where everyone can grow and thrive successfully and we are proud of the recognition we received for our work during the pandemic. In addition, our pupils' excellent social and academic skills are emphasised and praised throughout, as are the positive relationship between students and teachers which ensures that they make strong progress.

Of course, as in all stages of appraisal, we have targets that are of key importance if we are to ensure that we reach our full potential as an excellent school. Enjoy the summary and if you would like to read the full report, a copy is available on the school website.

Statutory Literacy and Numeracy Tests

Immediately after half term years 2 – 9 will complete statutory tests in English, Welsh and Mathematics. The results will be shared with you through HWB and will be on your child's end of year report. There is no need to worry about these, there is no need to revise but it will be necessary to ensure that your child does give of their best when completing the tests in order to show their true potential.

Bwyty'r Giedd a Chaffi'r Graig

Following a visit from Environmental Health we are delighted to announce that Bwyty'r Giedd and Caffi'r Graig have received a 5*standard, the highest possible standard and we congratulate Mrs. Vicky Warren and her special team of chefs for their work. Our focus on healthy eating is bearing fruit, numbers eating nutritious meals at lunchtime are increasing and if you would like to see what is available, the menu is on the School's website. A midday hot meal costs £2.50 and the payments through Parent Pay.

WAS – Wellbeing Award for Schools

As you know, we aim to be accredited with the Wellbeing Award for Schools (WAS) and following our excellent Estyn report on our Wellbeing work and support for pupils we are confident that we will be successful. One of the final steps is to re-visit the questionnaire you completed back in the Autumn. If you could complete this questionnaire before Friday 20th May we will be very grateful. [Click](#) here!



Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.

(01639) 842129

YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Health and Wellbeing Week

During the week commencing 20th June, we will be holding a Health and Wellbeing week. The week will be launched by Robert Mitchell, a Welsh professional athlete who will focus on the theme 'Inspiring Children Today to be tomorrow's Champions'. Through sporting activities, we will be raising money through a crowd funding system to be able to buy resources for our new yard. The sponsorship link is as: <https://www.crowdfunder.co.uk/p/ysgolgyfunystalyfera>

Congratulations and Successes

This half term has been a very successful one for a large number of our pupils and I would like to congratulate them all for their work. Here are some notable successes:

Maths Department (UK Maths Challenge)

Junior Challenge (BL 8)

Skye	Corry	Silver
Coby	Devereux	Silver
Dewi	Jones	Silver
Mari	Morgan Jones	Silver

Intermediate Challenge (BL10/11)

Elis	John	Gold
Llian	Caines	Gold
Bethan	Bray	Silver
Ellen Fiona	Smith	Silver
Morgan	Davies Woodrow	Silver
Gwen	Morgan Jones	Silver
Ioan	Carter Jones	Silver

Business Department

Thanks to Gower Cottage Brownies for their support of the 'Ystalyfera Welsh Language Apprentice Challenge 2022' project. Pupils were asked to create a new brownie for the market.

Champion: Zac Bevan, Callum Garrett, Danny Hirst a Jac Smith

Most Enterprising and Creative Idea: Kimberley Llywellyn and Thomas Griffith

Most professional presentation; Briallen Weaver, Ella Bissicks Arwen Watts

Resilient Pupil Award: Jazmine Roberts



Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.

(01639) 842129

YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Sports

Iola Jones (year 6) Swansea girls football team.

Jayden James and Steffan Austin (year 6) Afan Nedd football team.

Year 6 rugby team second in the Urdd tournament - West Glamorgan.

The School's first XV rugby team - Welsh Schools Cup Champions.

Gwennan Horgan Welsh under-17 football squad

Morgan Morse Wales under-20 and under-18 rugby team

Rhodri Lewis Welsh under-18 rugby team.

7 aside won the Llandovery tournament, and came second in the Urdd

Basketball team runners-up in West Wales regional tournament

Maggi Richards yr8 South Wales U13 hockey team

Canolfan Gwenallt

William Rawlings Nuffield Scholarship to work over the summer on a scientific project.

Taryn Purchase Oxford Summer School.

An Evening to Celebrate Talent / Open Door Evening

We will be holding an open door evening at the end of the year to give you the opportunity to visit us face to face. The evening will be an opportunity for you to see the new buildings, view work that has been completed by our pupils, attend a 'Celebrating Talent' performance, see the wonderful playing fields and have an informal chat with us or share your concerns. We look forward to welcoming you **on Wednesday 13 July 2022.**

Finally I would like to draw your attention to our final half-term calendar which is full of activities focusing on upskilling and providing wide-ranging and enriching experiences for our pupils. Please note our INSET days, parents' evenings (bl8), excursions and Awards Evening. If you have any questions please contact head office.

Thank you again for your support and co-operation

Yours sincerely

Head



Adran Uwchradd, Ysgol Gymraeg Ystalyfera
Heol Ynysydarren, Ystalyfera, Castell-nedd Port Talbot, SA9 2DY.
(01639) 842129
YsgolYstalyferaUwchradd@npt.school

Half Term Calendar

- 6.6.22: Numeracy and Literacy Tests years 2-9 (over two weeks)
- 9.6.22: Parents' evening year 8
- 13.6.22: Work experience week year 12
- 14.6.22: Full Year 9 reports
- 20.6.22: Year 10 Examination Week / Health and Wellbeing Week / Leadership Week
Year 12
- 24.6.22: Accelerated Learning Fortnight
- 1.7.22: INSET (no school for pupils)
- 11.7.22: INSET (no School for pupils)
- 13.7.22: Talent Celebration Evening / Open Door Evening
- 14.7.22: School Trips
- 15.7.22: Gig – Welsh Language
- 19.7.22: Awards Evening
- 20.7.22: Reports 7,8,10
- 21.7.22: End of Term
- 22.7.22: INSET (no school for pupils)

Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Ystalyfera – Bro Dur Chwefror 2022

Trosolwg

Mae Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur yn gymuned ofalgar, gynhwysol Gymreig lle mae cefnogaeth effeithiol i ddiwallu anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol disgyblion. Gwelwyd hyn yn arwyddocaol yn ddiweddar pan roedd angen cynhaliath benodol ar ddisgyblion trwy gyfnod pandemig ac wrth ddychwelyd i'r ysgol o dan gyfyngiadau Covid-19.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn rhyngweithio'n hapus a naturiol gyda'i gilydd yn y gwersi ac amseroedd chwarae. Maent yn cyfathrebu'n gwrtais a hyderus gydag oedolion ac yn hynod groesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn falch o'u hysgol a'u Cymreictod. Mae Senedd yr ysgol yn hynod o weithgar ac yn sicrhau bod rôl allweddol gan ddisgyblion wrth wneud penderfyniadau am waith yr ysgol.

Yn y canolfannau lles, y 'Gilfach' a'r 'Gorwel', mae staff yn cynllunio'n fedrus ac yn darparu ymyraethau gwerthfawr. Mae darpariaeth flaengar ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau ymddygiad a phroblemau emosiynol yn 'Ystafell Stwnsh' a cheir mynediad at gyfres o weithgareddau pwrpasol o dan arweiniad staff a chyfoedion. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygu disgyblion yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus, cyflawn.

Mae'r pennaeth yn egniol, brwdfrydig ac yn angerddol dros ddyfodol yr ysgol. Mae ganddi hi a'r tîm arwain weledigaeth glir o ran hybu Cymreictod a datblygu disgyblion moesgar sydd â balchder yn eu hunain a'u cymunedau lleol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn cyfleu'n ddigon clir pa agweddau y dylid eu dathlu fel agweddau unigryw y ddau safle nac i ba raddau y disgwylir i staff ar draws yr ysgol gydweithio. Mae arweinwyr wedi gwneud a chynnal gwelliannau i ddarpariaeth lles disgyblion yn llwyddiannus. Eto, nid yw cynllunio ar gyfer gwella bob amser yn ddigon penodol nac effeithiol.

Mae'r berthynas rhwng athrawon a disgyblion yn un gadarnhaol iawn ac mae'r rhan fwyaf o staff yn llwyddiannus wrth greu awyrgylch waith sy'n annog a chynnal disgyblion. Drwyddi draw, maent yn darparu profiadau addas i ddisgyblion sy'n galluogi'r mwyafrif o ddisgyblion i wneud cynnydd cadarn wrth fynd trwy'r ysgol a datblygu'u medrau'n briodol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn siarad yn hyderus ac aeddfed, ac yn ysgrifennu'n fedrus at wahanol gynulleidfaoedd. Maent yn darllen yn bwrpasol gan fynegi ystyr yn glir. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau rhif cadarn ac maent yn gwneud cynnydd cryf yn eu medrau digidol.

Er bod cryfderau yn ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol, mae diffygion cyffredin yng nghynllunio lleiafrif o athrawon. Yn gyffredinol, nid yw lleiafrif o weithgareddau yn y dosbarth na thasgau penodol yn cynnig digon o her i ddisgyblion.

A report on Ysgol Gymraeg Ystalyfera-Bro Dur February 2022

Overview

Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur is a caring, inclusive Welsh community where effective support meets pupils' emotional, health and social needs. This was found to be significant recently when pupils needed particular support throughout the pandemic and on their return to school under the Covid-19 restrictions.

Most pupils interact happily and naturally with each other in lessons and at play times. They communicate politely and confidently with adults and are very welcoming towards visitors. Pupils are proud of their school and their Welshness. The school Senedd is extremely active and ensures that pupils play a key role in making decisions about the school's work.

In the wellbeing centres, 'Y Gilfach' and 'Y Gorwel', staff plan skilfully and provide valuable interventions. There is innovative provision for pupils with behavioural difficulties and emotional problems in the 'Stafell Stwnsh', and they are able to access a series of purposeful activities led by staff and their peers. This contributes significantly to developing pupils as well-rounded principled and knowledgeable citizens.

The headteacher is energetic, enthusiastic, and passionate about the school's future. She and the leadership team have a clear vision in terms of promoting Welshness and developing courteous pupils who take pride in themselves and their local communities. However, leaders do not communicate clearly enough which aspects should be celebrated as unique aspects of both sites and to what extent staff across the school are expected to work together. Leaders have made and maintained improvements in provision for pupils' wellbeing successfully. Again, planning for improvement is not always specific or effective enough.

The relationship between teachers and pupils is very positive and most staff are successful in creating a working environment that encourages and supports pupils. Across the school, they provide suitable experiences for pupils, which enable a majority of pupils to make sound progress as they move through the school and develop their skills appropriately. A majority of pupils speak confidently and maturely and write skilfully for different audiences. They read purposefully and express meaning clearly. Many pupils have sound number skills and make strong progress in their digital skills.

While there are strengths in the quality of teaching across the school, there are common shortcomings in a minority of teachers' planning. Overall, a minority of classroom activities and specific tasks do not provide enough challenge for pupils.